



Ein prospectws 2021

Cylchoedd grantiau sydd ar y gweill gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Chwefror 2021

Cynnwys

1. Amdanom ni	3
2. Ein prospectws.....	5
3. Ein themâu: gweithio i blant a phobl ifanc	6
4. Cylchoedd grantiau â thema – bod yn bartner YEF.....	9
5. Ffyrdd eraill i weithio gydag YEF	12
6. Ein cylch grantiau Ebrill 2021 – Cyfle arall: Symud oddi wrth y system gyfiawnder droseddol	15
7. Ein cylch grantiau Medi 2021 – Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau.....	18
8. Sut byddwn yn asesu ceisiadau	21
9. Cymryd rhan	22

1. Amdanom ni


Elusen yw'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid gyda chenhadaeth bwysig. Ry'n ni'n bodoli i atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais. Rydym yn gwneud hyn drwy ddysgu beth sy'n gweithio, ac adeiladu mudiad i roi'r wybodaeth hon ar waith.

Mae plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod ynghlwm wrth drais yn haeddu gwasanaeth sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt i gael dyfodol positif. Er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd, byddwn yn ariannu prosiectau addawol ac yna'n defnyddio'r prosesau arfarnu gorau i ddysgu beth sy'n gweithio. Yn yr un modd ag yr ydym yn elwa ar dreialon meddyginiaeth cadarn, mae pobl ifanc yn haeddu cefnogaeth ar sail tystiolaeth. Drwy ein cylchoedd grantiau, rydym yn adeiladu'r wybodaeth honno.

Rhywbeth sydd yr un mor bwysig yw deall bywydau plant a phobl ifanc. Drwy ein Bwrdd Cyngori Ieuenctid a'n rhwydwaith cenedlaethol o ymchwilwyr cyfoedion, byddwn yn sicrhau eu bod yn dylanwadu ar ein gwaith a'n bod yn deall ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion.

Wedi dweud hynny, ni fydd hyn yn gwneud gwahaniaeth os y cwbl yr ydym yn ei wneud yw creu adroddiadau sy'n cael eu cadw ar silff. Gyda'n gilydd, mae angen i ni edrych ar y dystiolaeth a chytuno ar beth sy'n gweithio, ac yna adeiladu mudiad i sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth orau bosib.

Mae ein strategaeth yn nodi sut byddwn yn gwneud hyn. Wrth wraidd y strategaeth, byddwn yn ariannu gwaith da, yn dysgu beth sy'n gweithio ac yn gweithio dros newid. Gallwch ei darllen yma.



Ein hymrwymiad i gydraddoldeb

Ers lansio ein strategaeth, rydym wedi gwrandao ar lawer o bobl wahanol sy'n gweithio i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Rydym hefyd wedi siarad gyda phobl ifanc gyda phrofiad go iawn. Roeddem yn awyddus i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn i'r plant rydym yma i'w cefnogi wrth weithredu ein cynllun.

Dywedoch chi i gyd wrthym pa mor bwysig yw ein bod ni'n cynnal ein hymrwymiad i gydraddoldeb.

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol – gan gynnwys plant a phobl ifanc du ac Asiaidd a phlant sydd wedi bod mewn gofal – yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system gyfiawnder ieuenctid. Rydym wedi ymrwymo i ddeall yr anghydraddoldeb hwn, a'i ddatrys.

Byddwn yn sicrhau bod ein staff, ein partneriaethau, ein llywodraethu a'n cyllid yn cyrraedd ac yn cynrychioli'r plant rydym yma i'w gwasanaethu.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gwaith yn cyrraedd pobl ifanc o bob cefndir. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod elusennau dan arweiniad arweinwyr du, Asiaidd ac o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cael mynediad at ein cyllid a'n gwybodaeth. Er mwyn sicrhau hyn, byddwn yn dyrannu £5 i £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf i ariannu elusennau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd lleiafrifol sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

Ry'n ni'n gwybod mai megis dechrau yw hyn, a byddwn yn gwneud llawer mwy. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chi i sicrhau bod ein cyllid, y wybodaeth yr ydym yn ei hadeiladu a'n gwaith dros newid oll yn cyfrannu at gymdeithas lle gall pob plentyn ffynnu.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein hadroddiad Rhoi'r hyn a glywsom ar waith.



2. Ein prospectws

Mae'r prospectws hwn yn canolbwyntio ar ran cylchoedd grant â thema ein strategaeth, ac yn cyhoeddi mai'r ddau gylch grantiau nesaf yw:



Cyfle arall:

Symud oddi wrth y system gyfiawnder droseddol



Cartref cefnogol:

helpu teuluoedd i oresgyn heriau

Beth yw cylch â thema?

Nod ein strategaeth yw ariannu gwaith da, dysgu beth sy'n gweithio a gweithio dros newid. Mae'n egluro sut byddwn yn ariannu gwaith da mewn tair ffordd:

- 1 Cylchoedd thema.** Byddwn yn canolbwyntio llawer o'n cyllid ar gyfres o gylchoedd thema, ar sail un neu ddau ar yr un pryd.
- 2 Seiliedig ar leoedd.** Byddwn yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol lle mae lefelau troseddau treisgar yn uchel. Byddwn yn adeiladu ar bartneriaethau gyda phobl a sefydliadau lleol drwy ein Cronfa Gymdogaeth i greu a phrofi ymagweddau sydd â'r nod o fynd i'r afael â heriau lleol. A byddwn yn helpu asiantaethau lleol i rannu pŵer a gwybodaeth, drwy Gronfa Gydweithio Asiantaeth penodol.
- 3 Prosiectau wedi'u targedu.** Os ydym yn adnabod arferion nad ydynt yn gweddu i'r cylchoedd thema neu gyllid seiliedig ar leoedd, ond sy'n cael eu defnyddio'n helaeth neu'n addawol gyda'r posibilrwydd i uwchraddio, byddwn yn darparu'r adnoddau i'w hariannu a'u harfarnu, a dysgu ganddynt.

Byddwn yn ARIANNU GWAITH DA

Cylch grant â thema

Seiliedig ar leoedd

Prosiectau wedi'u targedu

Beth fydd y prospectws hwn yn rhoi gwybod i mi?

Mae'r prospectws yn:

- ◆ nodi sut bydd **ein themâu** yn sicrhau bod ein holl waith yn canolbwyntio ar **beth mae plant a phobl ifanc ei angen**
- ◆ egluro ein hymagwedd o ran tystiolaeth a gwybodaeth, a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn dderbyniwr grant YEF
- ◆ rhoi rhagor o fanylion i chi ar ein **cylchoedd grant â thema** nesaf ar amrywiaeth a helpu teuluoedd, sydd ar agor ar gyfer ceisiadau ym mis Ebrill a Medi 2021
- ◆ egluro sut gallwch gymryd rhan yn ein gwaith – gan gynnwys drwy ein cronfeydd **seiliedig ar leoedd** neu **prosiectau wedi'u targedu**, ond hefyd yn ein gwaith i wneud gwahaniaeth sylweddol i blant a phobl ifanc.
- ◆ Ni fydd y prospectws yn dweud wrthyfch sut i wneud cais am gyllid. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau llawn a manwl ym mis Ebrill i helpu gyda hyn.

3. Ein themâu: gweithio i blant a phobl ifanc

Rydym yma i wella bywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn adeiladu ein holl waith ar sail cyfres o themâu – yr amodau yr ydym yn credu sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc yn eu bywydau i'w cadw nhw'n ddiogel rhag dod ynghlwm wrth drais.

Mae'r gyfres o themâu'n darparu ffocws o ran y wybodaeth yr ydym am ei hadeiladu ynghylch beth sy'n gweithio i helpu i roi'r amodau hyn ar waith i bob plentyn a pherson ifanc.

Bydd pob **cylch grant â thema** yn archwilio maes diddordeb yn ymwneud ag un o'r themâu hynny.



Bydd ein cylch grant â thema cyntaf ar agor ar gyfer ceisiadau ym mis Ebrill. Y thema fydd rhoi **cyfle arall** i blant a phobl ifanc. Y maes penodol o ddiddordeb ar gyfer y rownd fydd **symud pobl ifanc oddi wrth y system gyfiawnder droseddol**.



Ym mis Medi, byddwn yn agor ein hail gylch grant â thema. Y thema fydd sicrhau bod gan blant **gartref cefnogol**. Y maes diddordeb penodol fydd **helpu teuluoedd i oresgyn heriau**.

Bydd yr hyn a ddysgwn o'r gwaith hwn yn llywio'r newidiadau fydd yn cael eu rhoi ar waith ar y cyd er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais.

O'n gwaith yn **seiliedig ar leoedd** mewn cymunedau lleol i'n hadnodd tystiolaeth ar-lein rhad ac am ddim (y **Pecyn Cymorth YEF**), bydd y themâu hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod wastad yn gofyn *yw'r hyn yr ydym yn ei wneud yn mynd i helpu'r plant yr ydym yma i'w cefnogi?*





Mae pobl ifanc angen...



Cartref cefnogol

Boed hynny drwy therapi teuluol neu ddosbarthiadau rhianta, rydym yn gwybod y gall helpu rhieni a gofaluwr wneud gwahaniaeth i fywyd plant sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais. Mae hyn yn cynnwys cymorth penodol i blant mewn gofal.

Oedolion y maent yn ymddiried ynddynt

Gall fod yn athro, gweithiwr ieuencid, hyfforddwr chwaraeon, mentor, neu ffrind i'r teulu. Mae ar blant a phobl ifanc angen oedolion y gallent ymddiried ynddynt i drafod eu problemau a chael cymorth pan fo angen.

Lle diogel a phositif i ddysgu ynddo

Mae sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn eu haddysg yn eu helpu i gadw'n ddiogel rhag bod ynghlwm wrth drais. Byddwn yn edrych ar sicrhau bod gan ysgolion, colegau, Unedau Cyfeirio Disgyblion a mathau eraill o addysg raglenni ar waith i sicrhau eu bod yn lleoedd diogel a phositif i ddysgu ynddynt.

Cyfleoedd

Mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc – boed hynny'n rhai cyflogaeth, hyfforddiant neu addysg. Gall dyfodol disglair, gyda chyfle i adeiladu eu cryfderau a'u talentau, amddiffyn pobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

Cymdogaeth ddiogel

Mae bod â rhwydwaith ffrindiau da a lleoedd diogel i fynd yn y gymdogaeth yn golygu bod modd i blant a phobl ifanc gadw'n ddiogel. Gall hynny gynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn tîm chwaraeon neu'r cyfle i greu celf neu gerddoriaeth. Ac mae'n cynnwys gwasanaeth heddlu sy'n effeithiol a theg y mae pobl yn ymddiried ynddo.

Cyfle arall

Weithiau, mae pethau'n mynd o chwith. Os yw person ifanc yn dod i drwbl, yn cael ei arestio neu'n ei gael yn euog o drosedd, bydd angen cymryd llwybr amgen ac osgoi cylch o aildrosedd.

Sgiliau cymdeithasol ac iechyd meddwl da

Mae angen i blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Os gallent gydnabod a rheoli eu teimladau, gallent adeiladu perthnasoedd cryf gyda phobl eraill a goresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu. Yn ogystal, mae angen y cymorth gorau posibl i wella eu hiechyd meddwl a'u hunanhyder.

Cymdeithas deg

Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd, mae angen i ni weithio i wneud cymdeithas yn fwy teg. Mae hyn yn golygu taclo hiliaeth, gwahaniaethu a thlodi.

Bydd y wybodaeth rydyn ni'n ei hadeiladu am yr hyn sy'n gweithio ym mhob un o'r themâu hyn yn ein helpu i benderfynu beth sydd angen ei newid i sicrhau bod gan bob plentyn yr hyn sydd ei angen arno i gadw'n ddiogel rhagddo trais. Byddwn yn ceisio newid nid yn unig rhaglenni ac arferion, ond y polisïau a systemau sy'n siomi gormod o bobl ifanc.

Sut penderfynwyd ar y themâu hyn?

Pan lansiwyd ein strategaeth, gofynnodd i bawb sy'n gweithio i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel i siapia ein dyfodol. Bu i dros 450 ohonoch – gan gynnwys athrawon, gweithwyr cymunedol ac ieuenctid, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol – rannu eich syniadau a'ch profiad. Gwnaethom sicrhau ein bod yn clywed lleisiau pobl ifanc hefyd. Gan weithio gyda'n partneriaid yn Leaders Unlocked, siaradom â phobl ifanc gyda phrofiadau go iawn o drais a'r system gyfiawnder ieuenctid.

Edrychom hefyd ar y dystiolaeth, sy'n dangos rhai o'r pethau all helpu i amddiffyn plant rhag bod ynghlwm wrth drosedd. We also looked at the evidence, which shows us some of the things that can help to protect children from involvement in crime.

Dros amser, rydym yn gwybod y gall tystiolaeth newid. Ac mae'n bosib na fydd eich barn chi – na barn pobl ifanc – yn aros yr un peth. Felly, dros gyfnod y gronfa, byddwn yn adolygu'r themâu hyn i sicrhau eu bod yn briodol. Byddwn yn parhau i wrando arnoch ac addasu. Oherwydd i gael hyn yn iawn, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd.

Dysgwch ragor am sut gwnaeth eich adborth chi wahaniaeth. Darllenwch ein hadroddiad Rhoir hyn a glywsom ar waith.



4. Cylchoedd grantiau â thema – bod yn bartner YEF

Ein hymrwymiad i ddysgu beth sy'n gweithio

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn bodoli er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais. Rydym yn gwneud hyn drwy ddysgu beth sy'n gweithio, ac adeiladu mudiad er mwyn rhoi'r wybodaeth honno ar waith.

I wneud hyn, nid yn unig oes angen i ni ddod o hyd i ymagweddau gwych a'u hariannu, mae angen i ni hefyd eu harfarnu mor drylwyr â phosib. Yn ein cylchoedd grant â thema, byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau gan brosiectau sydd eisoes yn darparu, all ddangos tystiolaeth bresennol eu bod yn gweithio dros hyn ac yn barod am y math hwn o arfarniad manwl (fel hap-dreial rheoli).

Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn ystyried ceisiadau ar gam cynharach yn ystod yr arfarniad, ond byddwn yn chwilio am brosiectau fyddai'n barod i ddechrau gyda threial manwl o fewn dwy flynedd.

Beth ydym yn ei olygu drwy ddweud bod angen tystiolaeth bresennol?

Pan fyddwn yn sôn am flaenoriaethu prosiectau lle gallwch ddangos tystiolaeth, rydym yn golygu:

- ♦ Gallwch **egluro'n amlwg beth mae eich prosiect yn ei gynnwys a sut mae'n arwain y newid rydych yn awyddus i'w weld i'r plant rydych yn gweithio gyda nhw**. Weithiau, gelwir hyn yn theori newid, sef dull i'ch helpu chi i ddisgrifio eich targedau hirdymor a mapio am yn ôl i egluro sut bydd eich ymyrraeth yn cyflawni'r targedau hynny.
- ♦ Rydych eisoes wedi arfarnu'n rhannol eich prosiect. Does dim angen iddo fod yn dreial mawr – mae ein cyllid yma i ddatblygu'r lefel honno o dystiolaeth. Beth *fyddem* yn hoffi ei weld yw tystiolaeth bod eich prosiect:
 - ♦ yn gallu cael ei weithredu'n llwyddiannus
 - ♦ yn arwain at ddeilliannau positif i blant a phobl ifanc (er enghraifft, mae'n lleihau lefel yr absenoldebau o'r ysgol)

Drwy ein cylch grantiau nesaf, yn ddelfrydol rydym yn chwilio am raglenni sydd **eisoes yn cael eu darparu**. Bydd nifer y plant y mae angen i brosiect fod yn gweithio â nhw'n dibynnu ar ddyluniad yr arfarniad, ond byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o brosiectau fod yn darparu ar gyfer o leiaf cant o blant fesul blwyddyn ar ôl gweithio gyda ni am ddwy flynedd.

Beth am raglenni sydd heb gael eu harfarnu? Neu raglenni llai?

Yn ein **cylchoedd grant â thema**, byddwn yn blaenoriaethu rhaglenni sydd eisoes yn darparu, ac sy'n gallu dangos peth tystiolaeth o'u deilliannau. Mae hyn yn ein helpu i gynnal arfarniad mwy cadarn a manwl (fel hap-dreialon rheoli). Mae hynny'n bwysig, gan fod plant yn haeddu cael gwasanaethau yr ydym wedi'u profi. Drwy fuddsoddi i dystiolaeth, gallwn adeiladu ein gwybodaeth a sicrhau ein bod yn cynnig y gefnogaeth orau bosibl i bob plentyn.

Nid yw ein ffocws ar raglenni mwy'n golygu nad ydym am ddysgu am waith sefydliadau cymunedol llai.

Rydym yn gwybod y gallwn ond adeiladu darlun cyflawn ynghylch beth sy'n gweithio os ydym yn deall y rhaglenni y mae'r sefydliadau hynny'n eu darparu hefyd. Ar hyn o bryd, rydym yn pennu'r ffyrdd gorau i wneud hynny, o beilotu ffyrdd newydd o gynnal treialon mawr i brosiectau dysgu hyblyg. Hefyd, dyma pam rydym yn clustnodi £5 - £10 miliwn o elusennau dan arweiniad pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais.

Gallwch ddarllen mwy am ein cynlluniau yn Rhan 5: Ffyrdd eraill o weithio gydag YEF.

Beth fyddai arfarniad yn ei olygu i mi?

Fel partner, byddwn yn gweithio gyda chi i arfarnu eich prosiect er mwyn dysgu os a sut mae'n gweithio. Byddwn yn penodi arfarnwr i'ch helpu chi drwy gyd-ddylunio elfennau ymchwil y prosiect, er mwyn sicrhau bod yr arfarniad yn addas ar gyfer eich rhaglen chi.

Un o'r ffyrdd mwyaf manwl o wneud hynny yw drwy hap-dreialon rheoli (RCT). Mae hyn yn ein helpu ni i brofi rhaglenni ac ymagweddau, fel y gallwn sicrhau bod gan y rhaglenni rydym yn eu darparu i'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed y cyfle gorau i wneud gwahaniaeth.

Beth yw hap-dreial rheoli (RCT)?

Mewn RCT, bydd un grŵp yn derbyn yr ymyrraeth (y 'grŵp triniaeth') ond ni fydd y grŵp arall (y 'grŵp rheoli'). Drwy edrych ar y ddau grŵp cyn ac ar ôl i chi weithio i gefnogi pobl ifanc, a gweld effaith eich gwaith (er enghraifft, gweld os yw'n arwain at lai o ymddygiad ymosodol neu gario arfau), gallwn weld y gwahaniaeth.

Sut mae dylunio arfarniad yn gweithio?

Nid ydym yn disgwyl i chi fod â syniad clir o ran sut gall eich rhaglen gael ei harfarnu pan fyddwch yn gwneud cais. Ond bydd angen i chi weithio gyda ni i siapio eich prosiect fel bod modd ei arfarnu'n fanwl gan un o'n partneriaid arfarnu cymeradwy.

Fel arfer, mae dylunio arfarniad yn golygu bod angen addasu'r cynllun prosiect arfaethedig mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, gall hyn gynnwys addasu rhai elfennau ar y ddarpariaeth, neu gyflawni'r rhaglen ar raddfa fwy na'r hyn a drafodwyd yn wreiddiol. Mae gennym broses cyd-ddylunio helaeth, all gymryd hyd at dri mis, i'ch cefnogi gyda hyn. Pan fyddwn yn agor ein cylch grant â thema ym mis Ebrill, byddwn yn rhannu rhagor o fanylion ar beth i'w ddisgwyl, fel y gallwch benderfynu os yw'r cylch grantiau hwn yn addas i chi.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid sydd wedi ymrwymo i ddeall mwy am eu rhaglen, ac sy'n awyddus i weithio gyda ni ac arfarnwr annibynnol ar hyn. Mae'n bwysig bod pawb yn fodlon ar y prosiect a dyluniad yr arfarniad cyn dechrau ar unrhyw ddarpariaeth. Ni fyddwn yn gallu bwrw ymlaen â'r prosiect fel arall.

Ni fyddem ond yn ariannu RCTs; byddwn hefyd yn ariannu astudiaethau peilot ac efallai y byddwn yn defnyddio dyluniadau eraill i ddeall beth fyddai wedi digwydd os nad oedd plentyn wedi derbyn eich ymyrraeth. Bydd yr union ddyluniad gwerthuso yn dibynnu ar natur y rhaglen sy'n cael ei phrofi.



Byddwn hefyd yn ceisio deall sut mae eich rhaglen yn gweithio. Ochr yn ochr â'r arfarniad o effaith, bydd y tîm arfarnu annibynnol yn cynnal arfarniad proses manwl. Fel arfer, mae hyn yn golygu trafod yn helaeth gyda chyfranogwyr, cynnal arolygon, cyfweiliadau ac astudiaethau achos er mwyn dysgu cymaint â phosib am eich ymagwedd.

Deall y gwahaniaeth yr ydych yn ei wneud yn y tymor hir

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod digon am y polisïau, y rhaglenni a'r ymagweddau sy'n llwyddo i amddiffyn plant rhag dod ynghlwm wrth drais yn y tymor hir.

Er mwyn dysgu beth sy'n gweithio, mae angen i ni ddeall y gwahaniaeth y mae prosiect yn ei wneud dros amser. Mae hynny'n golygu bod angen i ni gasglu a storio gwybodaeth fel y gallwn ddilyn cynnydd y plant sydd wedi cael cefnogaeth ein prosiectau yn y dyfodol. Yna, bydd hyn yn helpu ymchwilwyr i weld sut mae'r prosiectau rydym yn eu hariannu wedi newid bywydau pobl ifanc dros y blynyddoedd ar ôl iddynt gymryd rhan.

O ran ein partneriaid, mae hyn yn golygu y bydd angen i chi helpu ni i gasglu gwybodaeth berthnasol am y plant rydych yn gweithio gyda nhw. Mae gennym systemau a phrotocolau cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn cadw eu gwybodaeth yn ddiogel, o'r pwynt casglu hyd at pan fydd yn cael ei defnyddio gan ymchwilwyr yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio archif data diogel ar gyfer yr holl ddata. Darllenwch fwy am hyn [yma](#).

Er mai'r arfarnwyr annibynnol fydd â'r prif gyfrifoldeb dros ymchwilio a storio gwybodaeth bersonol, mae'n bwysig eich bod chi'n fodlon eu cefnogi.

Beth sy'n digwydd i ganfyddiadau'r arfarniad?

Nod cydweithredol YEF a'n partneriaid arfarnu yw rhoi'r cyfle gorau posib i bob rhaglen lwyddo. Rydym am sicrhau ein bod yn dysgu cymaint â phosib.

Efallai na fyddwn bob tro'n dod o hyd i raglen sydd ag effaith bositif ar y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais. Ond mae dal yn wybodaeth ddefnyddiol, sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth ar y cyd. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi canlyniadau pob prosiect rydym yn ei ariannu, hyd yn oed os nad yw'r rhaglen yn cael yr effaith ddisgwyliedig.

5. Ffyrdd eraill i weithio gydag YEF

Rydym yn gwybod na fydd pob sefydliad yn barod i fod yn bartneriaid yn ein **cylchoedd grant â thema**, oherwydd byddwn yn blaenoriaethu prosiectau all gael eu harfarnu gan ddefnyddio modelau megis hap-dreialon rheoli (RCT) o fewn dwy flynedd. Ond, nid y **cylchoedd grant â thema** yw'r unig ffordd y byddwn yn ceisio gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc.

Mae llawer o ffyrdd eraill y gallech weithio gyda ni i helpu ni i adeiladu gwybodaeth o beth sy'n gweithio i atal plant rhag dod ynghlwm wrth drais, a'i helpu i roi ar waith.

Treialon aml-safle

Mae rhai o'r mathau arfarnu mwyaf manwl (megis hap-dreialon rheoli) ond yn gweithio os oes llawer o blant yn cyfrannu at eich prosiect. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd i sefydliadau llai gymryd rhan.

Dyna pam rydym yn gweithio ar ffordd o weithio gyda grwpiau o sefydliadau llai sy'n darparu'r un ymagwedd (er enghraifft, math penodol o gynllun mentora), i redeg treialon aml-safle all brofi effaith arfer cyffredin. Mae heriau o ran rhedeg y math hwn o dreial, ond rydym yn gweithio'n galed iawn i'w goresgyn. Byddwn yn gallu rhannu mwy o newyddion cyn bo hir. .

Cyllid i sefydliadau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

Rydym yn dyrannu £5 - 10 miliwn dros y tair blynedd nesaf i sefydliadau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais. Byddwn yn gallu rhannu rhagor o wybodaeth cyn bo hir.

Profiadau pobl ifanc

Er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'n ystyrlon yr hyn y mae pobl ifanc ei angen, rydym yn sicrhau ein bod yn gwrandao arnynt ac yn eu cynnwys yn ein gwaith – yn benodol y rheiny sydd â phrofiad o drais. Rydym wedi dod yn bartneriaid gyda Leaders Unlocked er mwyn sefydlu Bwrdd Cynghori Ieuenctid fydd yn rhoi llais i bobl ifanc o ran ein penderfyniadau.

Rydym yn gweithio ar sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o ymchwilwyr cyfoedion ifanc. Byddant yn adeiladu ein dealltwriaeth o brofiadau a barn pobl ifanc fydd, gyda'n hymchwyl, yn dylanwadu ar y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud a'r canllawiau rydym yn eu datblygu.

Yn ddiweddarach eleni, bydd cyfle i ymuno â ni fel partner cyflawni, i recriwtio a chefnogi ein hymchwilwyr cyfoedion.

Pecyn Cymorth YEF

Mae eisoes gwybodaeth bresennol am beth sy'n gweithio yn y maes hwn, ond mae'n anodd iawn dod o hyd iddi. Ym mis Mehefin 2021, byddwn yn cyhoeddi fersiwn gyntaf ein Pecyn Cymorth. Yn un adnodd ar-lein hygyrch, bydd Pecyn Cymorth YEF yn dwyn ynghyd y wybodaeth bresennol ar effeithiolrwydd yr ymagweddau gwahanol sydd â'r nod o atal plant rhag dod ynghlwm wrth drais.

Neighbourhood Fund

Rydym yn gwybod bod cyfran uchel o drais yn digwydd mewn ardaloedd lleol penodol iawn. Bydd **Cronfa Gymdogaeth** YEF yn ein helpu i ddeall sut gall ymgysylltiad cymunedol wneud gwahaniaeth. Drwy fuddsoddi i ymdrechion i rymuso preswylwyr, bydd yn ein helpu i ddeall sut, ble a pham gall pobl lleol weithio mor effeithiol â phosib gydag asiantaethau lleol i gadw plant yn ddiogel rhag trais.

Byddwn yn lansio'r Gronfa eleni, gan ddod yn bartneriaid gyda phump o gymdogaethau lleol lle mae ein dadansoddiad wedi dangos bod lefelau uchel o drais ddifrifol ymysg ieuenctid. Dros amser, byddwn yn bwriadu dod yn bartneriaid gyda rhagor o ardaloedd lleol sydd â'r anghenion mwyaf.

Cronfa Cydweithio ag Asiantaethau

Rydym yn gwybod bod llawer o blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais yn wybyddus i asiantaethau lleol. Er hyn, mae'r wybodaeth yn aml yn dameidiog rhwng sawl sefydliad, gyda gwahanol bobl yn gyfrifol am rannau gwahanol o'r pŵs. Mae cyfleoedd lle gallai a dylai sefydliadau weithio gyda'i gilydd yn cael eu colli.

Er mwyn helpu i ddeall ble mae'r cyfleoedd hynny, rydym yn buddsoddi yn ein **Cronfa Cydweithio ag Asiantaethau**. Byddwn yn cynnal arfarniadau er mwyn dysgu'r ffyrdd mwyaf effeithiol y gall asiantaethau weithio gyda'i gilydd i adnabod a chefnogi'r plant sydd fwyaf mewn perygl. Byddwn yn lansio'r galwad cyntaf am gynigion ar ddechrau 2022.

Prosiectau wedi'u targedu

Drwy ganolbwyntio ar themâu, mae'n bosib y byddwn weithiau'n colli allan ar gyfleoedd gwych am gyllid ac i arfarnu prosiect all wneud gwahaniaeth mawr i bobl ifanc.

Felly, pob blwyddyn byddwn yn sicrhau bod ychydig o grantiau ar gael drwy ein rhaglen **prosiectau wedi'u targedu**. Byddwn yn blaenoriaethu rhaglenni sy'n debygol o allu cynnal arfarniad ar raddfa fawr (un ai hap-dreial rheoli neu ddyluniad arbrofol) o fewn dwy flynedd. A byddwn yn bwriadu gweithio gyda phrosiectau sydd eisoes wedi sicrhau cyllid cyfatebol. Byddwn yn canolbwyntio ar ddau faes:

- 1 Byddwn yn ariannu ac yn arfarnu **ymyraethau poblogaidd sy'n cael eu defnyddio'n aml** er mwyn deall yn well eu heffeithiolrwydd.
- 2 Byddwn yn ariannu ac yn arfarnu **ymyraethau addawol** sy'n defnyddio tystiolaeth dda, ac sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol.

O 2023-24, byddwn yn ehangu'r cyllid hwn i uwchraddio rhaglenni ac arferion sy'n amlwg yn effeithiol drwy dreial a ariennir gan YEF.

Bydd cyllid ar gael ar gyfer costau rhaglenni ac arfarnu. Fel arfer, ni fyddwn yn buddsoddi'n sylweddol i gostau rhaglenni os does dim llawer o dystiolaeth bresennol.

Gweithio dros newid

Ni fydd ein gwaith yn bwysig os ydym ond yn creu adroddiadau diddorol sy'n cael eu cadw ar silff. Dyna pam rydym yn awyddus i helpu i adeiladu mudiad fydd yn cyflawni'r newid hwnnw. Fel mae'r strategaeth yn ei nodi, byddwn yn gwneud hynny drwy:

- 1 Uwchraddio'r hyn sy'n gweithio.** Pan brofir bod gweithgaredd yn effeithiol, byddwn yn ei ehangu. Byddwn yn helpu sefydliadau i gryfhau eu strwythurau a'u capasiti mewnol, fel eu bod yn barod i uwchraddio'r gwaith. Gallai hynny gynnwys ymestyn eu darpariaeth bresennol neu ailadrodd rhaglenni mewn lleoliadau newydd ledled eu rhwydweithiau.
- 2 Rhannu arfer da.** Pan brofir bod arfer yn effeithiol, byddwn yn gweithio gydag eraill i rannu'r arfer da. Byddwn yn adeiladu rhwydweithiau a grwpiau o bobl a sefydliadau sy'n angerddol dros rannu'r gwaith hwnnw. Byddwn yn darparu'r dystiolaeth orau posib ar beth sy'n gweithio, ac yna'n cydweithio i rannu arfer da.
- 3 Gwella'r system.** Weithiau bydd angen newid y system ei hun. Bydd angen i ni gydweithio i newid y strwythurau, y prosesau neu'r tueddiadau sefydliadol all benderfynu sut a ble caiff adnoddau eu cyfeirio, a sut bydd plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi. Os oes dystiolaeth bod angen newid, byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni hynny. Weithiau bydd hyn yn anodd, weithiau bydd yn golygu ein bod yn amhoblogaidd, ond byddwn wastad yn rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf, ac yn gofyn beth sydd ei angen i'w cadw nhw'n ddiogel.

Byddwn yn GWEITHIO DROS NEWID

Uwchraddio'r hyn sy'n
gweithio

Rhannu arferion da

Gwella'r system

I sicrhau ein bod yn gwneud hyn oll, rydym yn adeiladu rhwydwaith o bobl sy'n angerddol dros amddiffyn y plant sydd fwyaf mewn perygl, ac sydd eisiau i'w penderfyniadau fod ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael. Byddant yn ein helpu i newid ein hamcanion, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn cyn bo hir, felly cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i fod ymhlith y bobl gyntaf i gael gwybod mwy.

6. Ein cylch grantiau Ebrill 2021 – Cyfle arall: Symud oddi wrth y system gyfiawnder droseddol

Gwriad – ein cylch grant â thema cyntaf

Gwn bod angen **cyfle arall** ar blant weithiau: dewisiadau amgen i gael eu harestio, eu cael yn euog o drosedd a chael eu cadw yn y ddalfa. Mae rhaglenni gwyrō'n gwneud hynny'n union, boed hynny drwy gymorth iechyd meddwl, ymyraethau teulu cyfan neu fentora (er enghraifft). Maent oll yn tueddu i gynnig cefnogaeth ar bwyntiau allweddol o newid; gall hynny fod ar bwynt arestio, cyn cymryd unrhyw gamau yn y llys, a phan fydd plentyn yn dioddef anaf difrifol gan eu bod wedi bod yn rhan o ymosodiad treisgar.

Y cwestiwn rydym yn bwriadu ei ateb

Pa ymagweddau gwyrō sy'n gweithio orau i atal plant a phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed rhag dod ynghlwm wrth drais?

Beth rydym yn bwriadu buddsoddi ynddo

Y nod yw adnabod oddeutu 10–20 o raglenni sy'n barod ar gyfer arfarniadau effaith manwl, neu all gael eu cefnogi i gyrraedd y pwynt hwn o fewn dwy flynedd. Byddwn yn bwriadu gwario rhwng £10 miliwn a £20 miliwn yn dibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

Sgôp y rhaglenni y byddwn yn eu hariannu yn y cylch hwn

	O FEWN Y SGÔP	Y TU ALLAN I'R SGÔP
CYD-DESTUN Y PLANT SY'N DERBYN CEFNOGAETH	Plant sy'n cael eu hadnabod ar un o'r pedwar pwynt pwysig cyn cymryd camau yn y llys ar gyfer trosedd: a) Heb gael ei arestio eto, ond wedi'i adnabod gan yr heddlu neu gyrff statudol eraill fel rhywun sydd mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drosedd b) Ar bwynt anaf oherwydd digwyddiad treisgar c) Ar bwynt arestio d) Cyn cyhuddiad a chamau gweithredu yn y llys (yn aml yn cael ei alw'n 'trefnu y tu allan i'r llys')	Plant sydd wedi'u hadnabod fel risg isel neu gymedrig o ddod ynghlwm wrth drosedd. Rhaglenni cymorth i atal aildroseddu ar ôl cael colfarn.
GWEITHGAREDDAU	Rhaglenni gwiro sy'n cynnig: a) Cymorth teuluol a rianta b) Cymorth iechyd meddwl a therapiwtig c) Cyfiawnder adferol d) Ymagweddau eraill os gallent arddangos graddfa a thystiolaeth yr effaith ar ddeiliant sy'n gysylltiedig yn sylweddol a bod ynghlwm wrth drais (er enghraifft, ymddygiad ymosodol). I gael rhagor o wybodaeth ar ffactorau sy'n ymwneud â risg uwch o fod ynghlwm wrth drais, neu amddiffyn rhag hynny, darllenwch ein briff Beth sy'n Gweithio.	Dulliau eraill lle tystiolaeth o effaith ar ganlyniad cynradd yn gysylltiedig â phlant cymryd rhan mewn trais yn wan neu ddim yn bodoli.
OEDRAN Y PLANT	10 i 17 oed	Unrhyw un y tu allan i'r ystod oedran hwn.
SEFYDLIADAU CYFLAWNI	Bydd rhaglenni'n cynnwys atgyfeiriad gan gorff statudol perthnasol, er enghraifft: - Yr Heddlu - Yr Uned Lleihau Trais - Tîm Troseddu Ieuencid yr Awdurdod Lleol - Ymddiriedolaeth gofal iechyd aciwt Ond gall y rhaglenni gael eu darparu gan elusennau, gwasanaethau cyhoeddus, neu sefydliadau'r sector preifat. Rhaid i raglenni gefnogi plant yng Nghymru a/neu Lloegr.	Unrhyw raglenni nad ydynt yn cynnwys atgyfeiriad gan wasanaeth statudol.
MATH O ARFARNIAD	Rhaglenni sydd â graddfa a thystiolaeth ddigonol o effaith i redeg arfarniad effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd (er enghraifft, hap-dreial rheoli neu ddull dylunio lled-arbrofol.) Rhaglenni sy'n gofyn am astudiaeth beilot, all fod yn barod am dreial effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd o fewn dwy flynedd.	Rhaglenni sydd heb unrhyw theori newid presennol neu sail dystiolaeth. Rhaglenni sydd heb raddfa ddigonol, ac sy'n annhebygol o fod yn barod am arfarniad manwl o fewn dwy flynedd.

Pam rydym yn buddsoddi i wryiadau

Mae gwyrō'n faes pwysig yr ydym yn awyddus i'w ymchwilio'n rhan o'n thema, **cyfle arall**.


Drwy ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid, roeddech yn glir y dylem ddysgu mwy am yr hyn sy'n gwneud rhaglen wryō'n effeithiol. Ac mae tystiolaeth addawol bod yr ymagweddau hyn yn effeithiol o ran atal ailddosedd a lleihau'r risg o fod ynghlwm wrth drais. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn bennaf yn dod o Unol Daleithiau America, ac mae angen mwy o wybodaeth ar raglenni yn y DU.

Amserlen ar gyfer ceisiadau

Gweithdy cylch grantiau: Mawrth – Ebrill 2021

Byddwn yn cynnal cyfres o weithdai ar-lein ar gyfer sefydliadau sydd â diddordeb mewn bod yn bartner YEF yn y cylch grant. Bydd aelodau o'r tîm YEF ar gael i roi rhagor o wybodaeth ac ateb eich cwestiynau ar beth rydym yn bwriadu ariannu yn ystod y cylch grantiau hwn, y broses ymgeisio a sut beth yw gweithio gyda ni i adeiladu'r dystiolaeth am beth sy'n gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag dod ynghlwm wrth drais.

Mae rhagor o wybodaeth ar y gweithdai ar gael yma. Gallwch hefyd gysylltu ag antoINETte.kwegen@youthendowmentfund.org.uk.



Byddwn yn lansio canllawiau llawn ar sut i wneud cais ar gyfer y cylch

7. Ein cylch grantiau Medi 2021 – Cartref cefnogol: helpu teuluoedd i oresgyn heriau

Mae'r cylch grant hwn yn cael ei gynnal ar y cyd â Comic Relief.

Helpu teuluoedd – ein hail gylch grant â thema

Mae bod â **chartref cefnogol** yn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag bod ynghlwm wrth drais. Os yw plant yn byw mewn cartrefi lle mae gwrthdaro neu gam-drin domestig, defnydd o alcohol neu gamddefnyddio sylweddau neu phan fo aelodau'r teulu ynghlwm wrth drosedd, mae'r risg yn uwch.

Dyna pam rydym am fuddsoddi i raglenni sy'n cefnogi teuluoedd. Ac mae hynny'n cynnwys adeiladu ein dealltwriaeth o beth sy'n gweithio i blant yn y system ofal, sy'n cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y system gyfiawnder ieuenctid.

Y cwestiwn rydym yn bwriadu ei ateb

Pa ymagweddau sydd fwyaf effeithiol o ran helpu teuluoedd a gofalwyr i greu amgylchedd cartref cefnogol i blant rhwng 6 ac 14 oed (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal), gan leihau'r tebygolrwydd ohonynt yn dod ynghlwm wrth drais?

Beth rydym yn bwriadu buddsoddi ynddo

Byddwn yn bwriadu adnabod oddeutu 10 i 20 o raglenni sy'n barod ar gyfer arfarniad effaith manwl neu allai gael eu cefnogi i gyrraedd y pwynt hwn o fewn dwy flynedd. Byddwn yn bwriadu gwario rhwng £10 miliwn ac £20 miliwn yn dibynnu ar ansawdd y ceisiadau.

Sgôp y rhaglenni y byddwn yn eu hariannu yn y cylch hwn

Rydym yn debygol o fod â diddordeb mewn ariannu ac arfarnu rhaglenni lle mae tystiolaeth o effeithiau positif ar blant yn addawol. Gall hyn gynnwys gweithgareddau megis:

- ♦ Cwnsela teuluol
- ♦ Dulliau therapi
- ♦ Gweithdai ar gyfer yr holl deulu
- ♦ Rhaglenni cymorth i rieni
- ♦ Rhaglenni cymorth i deuluoedd maeth a phlant sy'n derbyn gofal

Gweithio gyda chi i wneud y penderfyniadau iawn

Gyda'n partneriaid Comic Relief, byddwn yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad go iawn o drosedd a thrais i'n helpu i ddatblygu sgôp y cylch grant â thema. Byddwn hefyd yn siarad â phobl sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, pobl sy'n comisiynu gwasanaethau i deuluoedd ac arbenigwyr rhaglenni sy'n canolbwyntio ar deuluoedd.

Ochr yn ochr ag ymchwil pellach, bydd siarad gyda chi'n helpu ni i sicrhau ein bod yn datblygu'r meini prawf iawn ar gyfer y cylch hwn. Byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth ym mis Awst 2021.

Pam rydym yn canolbwyntio ar y maes hwn

Amlygodd ein trafodaethau gyda phobl yn gweithio i gadw plant yn ddiogel – a phobl ifanc eu hunain – y dylem ganolbwyntio ar helpu teuluoedd.

Mae hefyd tystiolaeth glir y gallai cymorth teuluol fod yn effeithiol. Ond mae llawer o'r dystiolaeth yn rhyngwladol yn hytrach na'r DU, ac mae gan lawer o'r astudiaethau ategol gyfyngiadau. Drwy ariannu rhaglenni yng Nghymru a Lloegr, gallwn adeiladu ein gwybodaeth am y ffordd orau i gefnogi teuluoedd, gofalgwyr maeth a chartrefi plant fel bod gan blant **gartref cefnogol**.

Partneriaeth â Comic Relief


Mae Comic Relief yn buddsoddi £2 miliwn i'n helpu i ddysgu sut gall cymorth teuluol o safon helpu plant sydd â'r risg uchaf o ddod ynghlwm wrth drais.

Hoffem ddiolch i Comic Relief am gefnogi'r maes gwaith pwysig hwn.

Amserlen ar gyfer ceisiadau

Byddwn yn cynnal cyfres o weithdai ar-lein gyda phobl a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn a chyda phobl ifanc sydd â phrofiad o drosedd a thrais.

Os hoffech ddysgu mwy am sut gallwch gymryd rhan yn y trafodaethau hyn, e-bostiwch lesa ar iesha.small@youthendowmentfund.org.uk



Bydd rhagor o wybodaeth ar y broses ymgeisio a chanllawiau ar gael pan fyddwn yn cyhoeddi sgôp terfynol y cylch hwn ym mis Gorffennaf 2021.

8. Sut byddwn yn asesu ceisiadau

Wrth benderfynu ar geisiadau i ariannu yn rhan o'n **cylchoedd grant â thema**, byddwn yn defnyddio wyth o feini prawf i'n helpu i ddewis prosiectau sydd â chynllun gwych a gallu cryf i'w gyflawni.

YR HYN RYDYM YN EDRYCH AMDANO	BETH MAE'N EI OLYGU I NI	DISGRIFIAD YN FANYLACH
CYNLLUN GWYCH	Deiliant gwerthfawr	Rydych yn bwriadu newid pethau sy'n debygol o leihau'r risg o bobl ifanc yn dod ynghlwm wrth drais.
	Os caiff ei gyflawni'n dda, tebygol o gyflawni'r deiliant	Rydych yn cyflawni ymyrraeth sy'n debygol o gyflawni'r deiliannau rydych yn anelu atynt?
	Bwriadu cyrraedd y math cywir o bobl ifanc	Rydych yn bwriadu cyrraedd y bobl ifanc sydd fwyaf tebygol o fod mewn perygl o ddod ynghlwm wrth drais ieuencid.
	Yn debygol o arwain at newid	Os profir bod yr hyn rydych yn ei ddarparu'n effeithiol, credir y gellid cyrraedd llawer mwy o bobl ifanc (un ai drwy uwchraddio, dysgu gan eraill neu newid i'r system).
GALLU CRYF I GYFLAWNI'R CYNLLUN	Tebygol o gyrraedd y math cywir o berson ifanc	Rydych yn debygol o allu cyrraedd a gweithio gyda'r math iawn o berson ifanc yr ydych yn bwriadu gweithio gyda nhw
	Gallu i gyflawni	Rydych yn debygol o allu cyflawni'r cynllun rydych wedi'i nodi
	Gallu arfarnu	Gallwn arfarnu'r hyn rydych yn ei wneud. Mae hyn yn rhannol yn ymwneud â sicrhau y byddwch yn gallu gweithio gyda grŵp digon mawr o bobl ifanc fel bod modd i ni arfarnu'r hyn rydych yn ei wneud drwy Hap-dreial Rheoli.
	Gallu cyflawni ar y raddfa ofynnol	Byddwch yn gallu cyflawni ar y raddfa yr ydych yn ei chynnig

Byddwn yn defnyddio ffurflen gais (fydd yn cael ei rhyddhau ym mis Ebrill) i ofyn am eich atebion i'r cwestiynau hyn. Byddwn hefyd yn rhyddhau canllawiau manwl i'ch helpu i'w llenwi.

Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr i gael gwybod mwy.

9. Cymryd rhan

Rydym yn hoffi bod pobl yn gallu cysylltu â pherson neu ein timau'n uniongyrchol, yn hytrach na bod â chyfeiriad e-bost cyffredinol. Os hoffech ddysgu mwy am ein gwaith a sut gallwch gymryd rhan, cysylltwch â ni.

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud ag:

- ♦ ein gweithdai sydd ar ddod am y cylchoedd grantiau, e-bostiwrch Antoinette: antoinette.kwegan@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ ein grantiau, e-bostiwrch y tîm: grants@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ ein Pecyn Cymorth, e-bostiwrch Pete: peter.henderson@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ ein harfarniadau, e-bostiwrch Daniel: daniel.aquah@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ ein gwaith dros newid, e-bostiwrch Paul: paul.twocock@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ ein gwaith yn seiliedig ar leoedd, e-bostiwrch Gail: gail.gibbons@youthendowmentfund.org.uk
- ♦ unrhyw beth arall, e-bostiwrch ni ar: hello@youthendowmentfund.org.uk



